Ein Cyf: Deunyddiau i'w Taenu ar y Tir/CoAPR

Annwyl Syr/Fadam

# Gwastraff/Deunyddiau i'w Taenu ar y Tir – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i leihau faint o lygryddion mae amaethu'n eu rhyddhau i'r amgylchedd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("y rheoliadau")) yn diffinio "*tail organig*" fel unrhyw deunydd gwrteithio â nitrogen sy'n deillio o blanhigion, anifeiliaid neu bobl gan gynnwys tail da byw. Bydd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o wastraff neu ddeunyddiau sy'n deillio o wastraff a daenir ar y tir.

Bydd rhai gofynion o fewn y rheoliadau yn effeithio'n uniongyrchol ar y defnydd o dail organig. Yn ogystal, mae'n debygol y gall y cyfyngiadau o fewn y rheoliadau gyfyngu ar argaeledd banciau tir. Bydd y gofynion yn y rheoliadau yn gymwys ar draws holl dir amaethyddol Cymru.

Dyma'r gofynion allweddol yn y rheoliadau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt:

O 1 Ionawr 2023

- Terfyn nitrogen o *dail organig* – mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ni ddylai cyfanswm y nitrogen sy'n cael ei daenu ar unrhyw hectar penodol fod yn fwy na 250kg/ha.
- Uchafswm terfynau nitrogen yn ôl cnwd – cyfanswm y nitrogen a ddefnyddir ar gnydau o dail a weithgynhyrchwyd a thail organig. (N max)
- Rhaid i'r tirfeddiannwr/meddiannydd gadw cofnodion mewnforio ac allforio ar gyfer *tail organig.*
- Storio yn y man lle caiff ei ddefnyddio - bydd gofynion penodol yn berthnasol i bentyrrau tail dros dro mewn caeau.

O 1 Awst 2024

- Mae cyfnodau caeedig (dim taenu) yn gymwys ar gyfer *tail organig* sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd ("RAN") - mae'r rhain yn berthnasol i Gymru gyfan.

Mae'n debygol y byddwch yn gweld newidiadau gweinyddol i ddogfennau perthnasol CNC er mwyn sicrhau, pan fo'n briodol, eu bod yn cyfeirio at y rheoliadau uchod. Mae'r gofynion yn y rheoliadau yn gymwys waeth beth fo'r newidiadau hyn.

Eich cyfrifoldeb chi yw asesu'r effaith debygol y gallai hyn ei gael ar eich cwsmeriaid e.e. ystyriaeth o gyfnodau caeedig ar gyfer gwastraff sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd. Bydd CNC yn gweithio gyda rhanddeiliaid a sectorau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r rheoliadau hyn.


Argymhellir eich bod yn ymgyfarwyddo â’r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol yn y dolenni isod:

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (legislation.gov.uk)

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 Canllawiau ar gyfer Ffermwyr a Thirfeddianwyr (gov.wales)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Julie.tate@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk a Nichola.salter@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn gywir



Becky Favager
Rheolwr Rheoleiddio Polisi a Dull Gweithredu / Regulation Policy & Approach Manager
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales